

FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

14 Hydref 2019

Ystafell Gynhadledd 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun

Yn bresennol:**AELODAU:**

Mari Gaskell (MG)
Rona Jones (RJ)
Mark Hatch (MH)
Shannon Gage (SG)
Rona O'Neill (RON)
Geraint Parry (GP)
Claire Armistead (CA)
Helen Vernon (HV)
Bethan Jones (BJ)
Sue Dick (SD)
Amanda Preston (AP)
Gwyn Tudur (GT)
Darren Booth Taylor (DBT)
Lindsey Davenport (LD)
Huw Hilditch Roberts (HHR)
Teleri Llwyd (TLI)

**RHAI NAD YDYNT YN
AELODAU:**

Cathy Howatson (Cofnodion)
Geraint Davies (GD)
Vicki Cotgreave (VC)
Paul Senior (PS)
Laura Poole (LP)
Honora Jones (HJ)
Sharon Frobisher (SF)
Jamie Groves (JG)
Steve Gadd (SG)
Joanne Moore (JM)
Ian Land (IL)

Ysgol Llywelyn
Y Santes Ffraid
Ysgol Dinas Brân
Cynrychiolydd Llywodraethwr Ysgolion
Cynradd (Is-gadeirydd)
Tir Morfa
Ysgol Brynhyfryd (Cadeirydd)
Ysgol Uwchradd y Rhyl
Bodnant
Gwernant
Bodfari
Crist y Gair
Ysgol Glan Clwyd
Twm o'r Nant
Cynrychiolydd Undeb Athrawon
Aelod Arweiniol Addysg
Borthyn

Swyddog Cyllido Ysgolion
Prif Reolwr Addysg
Ysgol y Castell
Prif Swyddog Cyllid a Sicrwydd
Cynrychiolydd Rheolwyr Busnes a Chyllid
Rheolwr Busnes a Chyllid - CTW
COG - Clawdd Offa
Rheolwr Gyfarwyddwr, Hamdden Sir Ddinbych
Pennaeth Cyllid / Swyddog Adran 151
Rheolwr Busnes a Pherfformiad
Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau

Croeso

Croesawodd Geraint Parry (Cadeirydd) y grŵp.

Roedd 16 aelod yn bresennol yn y cyfarfod i sicrhau cworwm.

1. Ymddiheuriadau

Karen Evans – Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Liz McClean – Cynrychiolydd Undeb Athrawon
Craig Joyce - Rheolwr Ariannu Ysgolion
Neil Foley – Ysgol Uwchradd Prestatyn

2. Cytunwyd ar gofnodion 03/06/19 gan y fforwm.

Balansau Ysgolion – Dim diweddariad hyd yn hyn. Roedd Rosemary Jones wedi bod yn edrych ar hyn a byddai'n cwrdd â Karen Evans i fynd drwy ei chasgliadau. Diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

MG, nofio – Camddegongliad ar dudalen 3 o dan dyraniadau nofio.

3. Cylch Gorchwyl

Fe aeth y grŵp drwy'r cylch gorchwyl presennol a'u diweddaru. Dywedodd RJ fod y Santes Ffraid wedi'u nodi ddwywaith fel aelodau – Cytunwyd mai Amanda Preston fyddai'r cynrychiolydd ar gyfer Ffydd a Rona Jones fyddai cynrychiolydd Ysgol Ganol.

Gofynnodd LD am gadarnhad os bydd rhywun yn methu 3 chyfarfod yna ni chânt fynychu'r fforwm - cafodd hyn ei gadarnhau.

CAM GWEITHREDU – CH i ddiweddaru'r cylch gorchwyl gyda'r newidiadau uchod.

4. Proses y Gyllideb

Mynychodd Steve Gadd y cyfarfod a rhoddodd gyflwyniad sydd eisoes wedi cael ei rannu gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Cabinet.

Roedd yna bwysau o £8.5 miliwn. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau chwyddiant, ynni, demograffeg a 2% o arbedion sydd wedi'u cynnwys i ysgolion.

Fe ddylem wybod beth yw'r setliad drafft erbyn 26 Tachwedd ac yna'r setliad terfynol ganol fis Chwefror 2020. Rydym ni'n cynllunio ar gyfer y gwaethaf. Fe fydd y wybodaeth a anfonir ym mis Rhagfyr yn ddibynnol ar grantiau.

HH – yn poeni i bydd yna her ar grantiau. Gofynnwyd i Mark Dafydd yn LIC am ragor o wybodaeth. Gofynnodd VC a oedd y dyfarniadau tâl i athrawon wedi cael ei gadarnhau.

MG – Ydi – 2.75% i bob athro heblaw am athrawon newydd gymhwyso oedd yn 5%.

SG – Roedd ffigurau 2021 ar gyfer ysgolion yn cynnwys chwyddiant ar gyfer pensiynau

SG – Byddwn yn cadarnhau'r cyfrifiadau ac yn gosod y targed arbed ym mis Rhagfyr.

HH – Rydym mewn sefyllfa gadarnhaol ond mae angen i ni fod yn ofalus gyda chyllidebu. KE yw Cyfarwyddwr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru erbyn hyn.

Gofynnodd MG pryd fyddwn ni'n gwybod y setliad terfynol. Nid yw SG wedi derbyn unrhyw beth eto.

5. Adolygu'r Fformiwla Ariannu

Bydd hyn yn cael ei symud i agenda'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

6. Cytundeb Partneriaeth Hamdden

Mynychodd Jamie Groves y cyfarfod yn dilyn cais gan Benaethiaid ysgolion uwchradd ar ôl y Fforwm Cyllid Ysgolion blaenorol pan gafwyd trafodaeth ynglŷn â Defnydd Deuol. Cafodd y grŵp gopiâu o Gytundeb Partneriaeth Defnydd Deuol, ffigurau, sail codi tâl a gwelliannau i Ganolfannau.

CA – Gofynnwyd y cwestiynau gan y Penaethiaid Uwchradd gan eu bod dan yr argraff fod cyllid yn dod i mewn ac yn mynd allan ond bod yna gynnydd blynyddol – pam nad yw'r gynnydd o 1% yn dod i'r fforwm.

JG – Mae Defnydd Deuol yn gweithio 18 mis ôl-daliad gan weithio ar ffigurau gwirioneddol y llynedd.

Roedd CA yn ddiolchgar iawn ei fod wedi mynychu'r cyfarfod a does neb yn cwestiynu ei fod yn brigdorri o'r gyllideb a pham nad yw'r 1% o gynnydd yn dod i Fforwm Cyllideb Ysgolion fel y cytunwyd. Mae ysgolion yn edrych ar bob llinell yn eu cyllidebau.

Gofynnodd GP a ydi'r pot yn llai nag y dylai fod, ydi hyn yn digwydd yn genedlaethol.

CA – Ni chytunir i frigidorri'n flynyddol yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion.

Nid oes gan JG wrthwynebiad i fynychu'r Fforwm Cyllideb Ysgolion. Nid yw'r terminoleg yr un fath â gwasanaethau Cytundebau Lefel Gwasanaeth eraill sy'n cael eu masnachu.

Darparwyd proses glir, costau uned.

Diolchodd GP i Jamie am fynychu.

JG – map proses newydd i'r cwmni. Mae angen i KE gytuno pa safleoedd defnydd deuol fydd yn cael eu defnyddio, a sut.

GT - All cyfarfodydd fod yn rhai un-i-un gyda Phenaeithiaid

JG - Mae gennym raglen Addysg Gorfforol effeithiol mewn ysgolion uwchradd a rhaglenni nofio mewn ysgolion cynradd. Yr ysgolion cynradd sy'n cael y dewis cyntaf o ran amseroedd y pwll, ac yna'r ysgolion uwchradd.

CAM GWEITHREDU – Fforwm wedi cytuno fod JG yn mynychu'r fforwm ym mis Medi

7. Dyranid Cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol

Jo Moore – Mae is-grŵp cyllid ADY wedi cyfarfod er mwyn trafod dyranid ADY. Y gyllideb yw £1.8 miliwn ac fe gytunwyd i'w gadw yr un fath.

Mae JM wedi ymgynghori â chadeiryddion y clystyrau a chafwyd adborth cadarnhaol.

Fel rhan o'r grŵp tasg a gorffen roedd MG yn teimlo ei bod yn cefnogi'r cynnig i ddyrannu ar gyfartaledd 3 blynedd, gan y bydd yn lleihau amser staff sydd yn ymwneud â pharatoi'r broses panel cymedroli presennol. Fe fydd yna rhai yn elwa a rhai yn colli allan wrth i ni symud i gyfartaledd 3 blynedd fel pob fformiwla arall. Mae RJ hefyd yn rhan o'r gweithgor ac yn teimlo ei fod yn rhan rhesymol o rannu'r cyllid.

MG – Mae'r dyranid yn gyfartaledd 3 blynedd, ond dylid cynnal adolygiad blynyddol i weld os ydi'r cyllid yn ffordd deg o'i rannu.

VC – Cytunodd ar adolygiad gyda JM a'r angen am fapiau proses cymedroli a ddefnyddir i ddyrannu cyllideb.

CAM GWEITHREDU – Cytunwyd y cynigion gan bawb ar gyfer y sectorau Uwchradd a Chynradd.

Addysg yn y cartref

JM – Fe ddosbarthwyd papur i'r Fforwm Cyllideb Ysgolion cyn y cyfarfod yn cynnig dyrannu cyllid ar gyfer addysg yn y cartref nôl i ysgolion a brigdorri ar gyfer y gorwariant.

Gofynnwyd i'r fforwm gytuno a fyddai'n well ganddynt frigidorri cyllideb ADY a ddirprwyir i ysgolion cynradd ac uwchradd gan ddefnyddio rhaniad % cynradd/uwchradd yn seiliedig ar gyfartaleddau'r 3 mlynedd ddiwethaf o gyllid er mwyn rheoli costau cynyddol y ddarpariaeth addysg yn y cartref.

Gofynnodd RJ beth yw'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cofrestru'r disgyblion, ai'r ysgol neu'r ALI? - Cadarnhaodd JM mai'r ysgolion sydd yn cofrestru disgyblion.

Mae RJ yn poeni am dderbyn bil yn yr ysgol am addysg yn y cartref gan mai mater tymor byr ydyw i fod, ond mae ganddi achosion tymor hir dros 12 mis a byddai'r costau'n sylweddol i'w hysgol hi ar gyfer un disgybl.

Roedd SGage yn teimlo y gallai weithio yn y tymor byr ond nid yn yr hir dymor.

Gofynnodd RJ a fyddai modd ei gapio.

RJ – mae'n rhaid i rai disgyblion gael eu haddysgu gartref am resymau iechyd, ac nid anghenion ADY yw pob un.

LD – dylai gael ei ddosbarthu i'r rhai sydd ei angen.

DBT – yn teimlo y dylai gael ei gadw'n ganolog fel y mae'n bresennol.

MG – gofynnodd o ble fyddai'r brigdorri'n dod?

CA – Allwn ni herio'r gwasanaethau iechyd am gostau? GP – Yn gryno byddai'r brigdorriad tua £60,000.

Gofynnodd RJ pam ddylai'r ysgolion orfod talu am y gorwariant?

DTB – Mae'n ymddangos fod y gyllideb mewn diffyg ariannol a gofynnir i'r fforwm dalu amdano.

Awgrymodd JM adrodd i Fforwm Cyllideb Ysgolion yn rheolaidd o ran gwariant.

CAM GWEITHREDU – Pawb wedi cytuno i gadw'r cyllid yn ganolog

Rhybudd Cosb Benodedig

Dosbarthodd JM papur yn gofyn i'r fforwm gymeradwyo penodi swyddog gweinyddol ychwanegol 0.6 fte yn ganolog am gost o £11,967 (tua £200 i bob ysgol). Bydd hwn yn cael ei brigdorri o'r cyllideb ddirprwyedig o fis Ebrill 2020 ymlaen. Bydd costau gweddill y flwyddyn ariannol hon yn cael eu bodloni gan yr Awdurdod Lleol.

Byddai ysgolion yn rhoi'r gorau i'r arfer o anfon e-byst unigol gyda nifer o atgyfeiriadau a bydd cyfyngiad amser i brosesu atgyfeiriadau yn cael ei weithredu, os nad yw wedi'i anfon o fewn pythefnos o wthio'r sbardun, ni fydd yr atgyfeiriad yn mynd yn ei flaen a bydd yr ysgol yn cael ei hysbysu yn unol â hynny.

Dywedodd JM nad oedd yna adborth negyddol o'r cyfarfodydd clwstwr.

Nid oedd VC yn cytuno. Dywedodd clwstwr y Rhyl y byddai'n ei gymryd nôl i'r clwstwr.

Cadarnhaodd MG fod Rhyl yn erbyn y cynnig. Rhaid rhoi hyfforddiant er mwyn targedu a cheisio peidio â chael pentwr stoc.

Gofynnodd GP i'r clystyrau roi eu barn.

Pleidleisiodd clystyrau'r Rhyl, Llangollen a Dinbych "na".

Clwstwr Rhuthun – Gofynnodd TLI ar ran y clwstwr i ble mae'r £60 o gosb yn mynd rŵan. Dywedodd JM ei fod yn mynd i Refeniw a Budd-daliadau.

Nid oedd Clwstwr Glan Clwyd wedi trafod y cynnig.

Roedd SGage yn teimlo y dylem roi cynnig ar gamau eraill yn sgil ansicrwydd y cyllidebau a gafodd eu trafod yn y fforwm heddiw.

CAM GWEITHREDU – Ni chytunodd y fforwm i'r cynnig yma. Fe wnaethant awgrymu fod angen edrych ar y broses bresennol eto.

8. Cynaliadwyedd

Fe ddsbarthodd MH achos busnes ar gyfer Ysgol Dinas Bran o ran cyllid cludiant. Fe gytunwyd arno'r flwyddyn ariannol ddiwethaf ac roedd y costau o dan £220,000 fel y cytunwyd. Cafodd yr arian dros ben ei rannu i ysgolion gan CAJ.

Rhoddodd IL drosolwg byr i'r fforwm o'r cytundeb presennol sydd ar waith. Fe sefydlwyd is-grŵp er mwyn adolygu proses y fformiwlâ. Mae yna newidiadau i'r ddeddfwriaeth gludiant hefyd.

Gan fod yr ysgol eisoes wedi cynnal ei noson agored, teimlwyd y dylid cytuno ar ddyraniad 2020/21.

Cafodd yr ysgol £220,000 ar gyfer 2019/20. Os bydd yna danwariant, caiff yr arian dros ben ei rannu i'r ysgolion.

Bydd yr achos busnes yn dod yn ôl i'r fforwm ym mis Mawrth 2020.

CAM GWEITHREDU – Cytunodd y fforwm.

IL i rannu'r ddogfen ddeddfwriaethol gyda phob ysgol a gwahodd Peter Daniels i ddiwrnod y Penaethiaid er mwyn mynd dros y newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

9. Gwasanaethau Masnach

Mae CH wedi anfon CLG y gwasanaethau masnach 2020/21 ac maent gyda'r rheolwyr gwasanaeth.

Gofynnwyd iddynt eu dychwelyd erbyn dydd Gwener 15 Hydref.

Oherwydd amgylchiadau na ragwelwyd fe fydd yna oedi cyn eu hanfon i'r ysgolion. Gofynnodd CH i'r grŵp os oedd rhai o'r ysgolion yn ystyried tynnu allan o unrhyw CLG penodol eu bod yn gadael i'r Sir wybod cyn gyned â phosibl.

Os yn bosibl byddwn yn sicrhau eu bod yn yr ysgolion yr wythnos sy'n dechrau 4 Tachwedd 2019.

10. Cynlluniau Cronnus

Dywedodd PS y disgwylir i'r cynllun salwch cronnus fod drosodd o £391,000 hyd yn hyn. Yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion diwethaf roedd KE yn mynd i siarad gydag Adnoddau Dynol ynglŷn â'r hyn oedd yn achosi'r salwch. Roedd cam-godio yn broblem hefyd.

Gofynnwyd i PS anfon ffigurau a chodau salwch i ysgolion unigol.

LP – Yn yr ysgolion uwchradd mae'r rheolwr cyllid yn cael copi o'r dudalen flaen, ond nid yw'r ysgolion cynradd yn ei gael.

Gofynnodd GP yw hi'n bosibl i'r Penaethiaid gael enghreifftiau a sicrhau fod gwiriadau yn eu lle i weld os yw'r system yn gweithio'n iawn?

LP – Os mai New Directions sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyflenwi, nid yw'r Rheolwr Cyllid yn derbyn gwybodaeth ynglŷn â phwy sy'n ymgymryd â'r gwaith llanw i wirio os yw'r wybodaeth yn gywir.

Awgrymodd MG eu bod yn dewis samplau o ysgolion ar hap i sicrhau'r ansawdd. Cytunwyd ar hyn.

CAM GWEITHREDU – PS i anfon adroddiadau o drafodion.

11. Materion yn codi o'r cyfarfodydd Clwstwr

Dim materion yn codi.

12. Unrhyw Fater Arall

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm.

Dyddiad y cyfarfod nesaf - Dydd Mawrth 28 Ionawr 2020, Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Draft